# Newidiadau pwysig i'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Phensiwn y Wladwriaeth o fis Ebrill 2016

Adran Gwaith a Phensiynau

## Newidiadau pwysig ar gyfer gweithwyr

Roedd Pensiwn y Wladwriaeth i'r rhai oedd yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016 wedi ei wneud i fyny o ddwy ran: Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (gelwir Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth weithiau'n Ail Bensiwn y Wladwriaeth neu SERPS).

Os ydych mewn cynllun pensiwn budd-dal diffiniedig (fel arfer cynllun pensiwn yn berthnasol i gyflog) rydych yn debygol o fod wedi "eithrio" o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Mae hyn yn golygu bod chi a'ch cyflogwr wedi talu Yswiriant Gwladol ar gyfradd is (gelwir hefyd yn "ad-daliad Yswiriant Gwladol") Efallai eich bod gyda ychydig neu ddim Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth o dan yr hen system gan eich bod yn adeiladu pensiwn gweithle yn ei le. Ni fyddai eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn cael ei effeithio.

## Beth sydd wedi newid?

Mae Pensiwn y Wladwriaeth wedi newid ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Bydd y newid hwn yn helpu pobl ddeall yn glir beth fyddant yn cael o'u Pensiwn y Wladwriaeth fel eu bod yn gallu cynllunio tuag at eu hymddeoliad.

Mae Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi disodli yr hen Bensiwn sylfaenol ac ychwanegol y Wladwriaeth ac yn rhoi diwedd i eithrio ac ad-daliad Yswiriant Gwladol.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os ydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth  o 6 Ebrill 2016, efallai bydd eich Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn adlewyrchu'r lefelau is o Yswiriant Gwladol wedi ei dalu gennych ac eich cyflogwr am unrhyw gyfnodau rydych wedi cael eich eithrio. Fodd bynnag, bydd gennych incwm ychwanegol o'r gweithle rydych wedi bod yn talu iddo, ac efallai'n gallu rhoi hwb i'ch Pensiwn y Wladwriaeth drwy barhau i weithio, gwneud cais am gredydau Yswiriant Gwladol neu dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Gwirfoddol.

Bydd y mwyafrif o weithwyr a effeithir arnynt, yn gallu cael mwy o Bensiwn y Wladwriaeth o dan y cynllun newydd o ganlyniad i'r newidiadau i gymharu ag o dan yr hen gynllun. O fis Ebrill 2016 byddwch yn dechrau talu'r gyfradd sylfaenol o gyfraniadau Yswiriant Gwladol ac ni fyddwch mwyach yn gallu cael yr 1.4% ad-daliad Yswiriant Gwladol.

Gall cyflogwyr wneud newidiadau i'w cynllun pensiwn gweithle i helpu wrthbwyso diwedd yr ad-daliad Yswiriant Gwladol ar gyfer gweithwyr gyda chaniatâd ymddiriedolwyr ac yn unol â rheolau cynllun. Mae'r Ddeddf Pensiynau 2014 hefyd yn caniatáu cyflogwyr i wneud newidiadau cyfyngedig heb ganiatâd. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr ymgynghori gyda chi cyn gwneud unrhyw newidiadau o'r fath.

## Gwybodaeth bellach

Cewch hyd i fwy o wybodaeth yn:

**www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/381889/Welsh-NewStatePensionEmployeefact_sheet_21_11_14.pdf**

**www.gov.uk/check-state-pension**

Cyllid & Tollau EM